



Adroddiad ar Ddatblygu Offeryn Cyhoeddus NACEL ar gyfer Cleifion a Gofalwyr

1. [Cyflwyniad](#)
2. [Amcanion yr Offeryn](#)
3. [Ffynonellau Data](#)
4. [Datblygiad Cam 1 \(Cyhoeddwyd Awst 2025\)](#)
5. [Sgopio a Datblygu Cam 2 \(Cyhoeddi arfaethedig Awst 2026\)](#)
6. [Asesiad Risg a Lliniaru](#)
7. [Strategaeth Gyfathrebu](#)
8. [Gwelliannau Dylunio Cam 2](#)
9. [Ymgysylltu â Rhanddeiliaid](#)
10. [Amserlen Weithredu](#)
11. [Casgliad](#)
12. [Diolchiadau](#)

1. Cyflwyniad

Datblygodd yr Archwiliad Cenedlaethol Gofal ar Ddiwedd Oes (NACEL) yr Offeryn Cleifion a Gofalwyr (offeryn cyhoeddus) i wella tryloywder a hygyrchedd data gofal diwedd oes i gleifion, gofalwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r offeryn yn galluogi defnyddwyr i ddeall perfformiad darparwyr gofal, amlygu meysydd o arfer da, a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ansawdd.

Cafodd y fenter ei harwain gan dîm NACEL, Rhwydwaith Meincnodi'r GIG (NHSBN), mewn cydweithrediad â GIG Lloegr, Cymru a Jersey. Cawsant y dasg o greu platfform rhyngweithiol sy'n caniatáu mynediad agored i ddata NACEL heb fod angen dilysu defnyddwyr. Y nod trosfwaol yw cefnogi ymgysylltiad cyhoeddus gwybodus a gyrru gwelliannau mewn canlyniadau i gleifion.

2. Amcanion yr Offeryn

Prif amcanion Offeryn Cleifion a Gofalwyr NACEL yw:



- Cyflwyno data gofal diwedd oes mewn fformat hygyrch a hawdd ei ddefnyddio
- Hysbysu cleifion, gofaluwr a'r cyhoedd am ansawdd y gofal a ddarperir ar lefel ysbyty
- Cefnogi mentrau gwella ansawdd o fewn gwasanaethau iechyd
- Cynnwys Cyfranogiad Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) yn natblygiad a mireinio'r offeryn
- Galluogi tryloywder tra'n sicrhau mesurau diogelu priodol ar gyfer data sensitif

3. Ffynonellau Data

Mae'r offeryn yn tynnu ar dair o gydrannau craidd casglu data NACEL:

- Data ar lefel cleifion o gofnodion clinigol
- Ymatebion o'r arolwg profedigaeth
- Data ar lefel sefydliad gan ysbytai a darparwyr gofal

Mae cyfranogiad yn NACEL yn uchel, gyda thua 99% o ysbytai cymwys yn cyfrannu data, gan sicrhau canfyddiadau cadarn a chynrychioliadol.

4. Datblygiad Cam 1 (Cyhoeddwyd Awst 2025)

4.1 Dyluniad Cychwynnol ac Ymgynghori

Lansiwyd Cam 1 yr offeryn ym mis Awst 2025 yn dilyn ymgynghoriad gyda 10 o bobl â phrofiad byw o brofedigaeth. Sicrhodd ymgysylltu cynnar fod yr offeryn yn adlewyrchu anghenion a sensitifrwydd ei brif gynulleidfa.

4.2 Penderfyniadau Dylunio Allweddol

- Roedd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar symlrwydd a hygyrchedd. Roedd y penderfyniadau allweddol yn cynnwys:
 - Dangos pum metrig craidd:
 - Argaeledd gofal lliniarol arbenigol (7 diwrnod yr wythnos)
 - Digonolrwydd lleddfu poen i'r person sy'n marw
 - Asesiad cyffredinol o ofal a chymorth yr ysbyty
 - Tystiolaeth o sgysiau cynllunio gofal personol
 - Asesiad o anghenion ysbrydol, crefyddol neu ddiwylliannol
- Cyfyngu manylder y data i lefel ranbarthol a chenedlaethol (yn hytrach na data ar lefel ysbyty)



- Cynnwys testun esboniadol a chanllawiau y gellir eu hehangu i gynorthwyo dehongli
- Darparu opsiynau cymharu yn ôl gwlad a rhanbarth

4.3 Dylunio Rhyngwyneb Defnyddiwr

Dyluniwyd y rhyngwyneb gyda'r canlynol:

- Cyflwyniad clir o'r metrigau allweddol
- Llywio syml a hidlwyr gwympen
- Adrannau esboniadol y gellir eu cwmpo ar gyfer manylion ychwanegol
- Canllawiau cyflwyno i gefnogi dealltwriaeth defnyddwyr
- Mecanwaith adborth
- Offeryn hygyrchedd i gefnogi'r rhai ag anghenion ychwanegol

5. Sgopio a Datblygu Cam 2 (Cyhoeddi arfaethedig Awst 2026)

5.1 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd proses sgopio strwythuredig i lywio datblygiad Cam 2:

- Enwebwyd 35 o weithwyr proffesiynol gan GIG Lloegr, GIG Cymru a Jersey
- Dewiswyd 22 o gyfranogwyr i ymuno â grwpiau Tasg a Gorffen (T&G). Roedd y gweithwyr proffesiynol hyn yn cynrychioli gwahanol rolau, lefelau system a daearyddiaethau
- Cyfarfu'r grwpiau T&G ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2025

5.2 Canlyniadau'r Grŵp Tasg a Gorffen

Roedd prif ganlyniadau'r grwpiau T&G yn cynnwys:

- Nodi'r prif risgiau (gweler isod, adran 6)
- Nodi strategaethau lliniaru (gweler isod, adran 6)
- Datblygu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr (gweler isod, adran 7)
- Mapio rhanddeiliaid ar draws lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, system a lleol
- Argymhelliad i sefydlu grŵp cydgynhyrchu yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a phobl â phrofiad byw o brofedigaeth o sgopio Cam 1

5.3 Dull Cydgynhyrchu

Cynhaliwyd grŵp cydgynhyrchu ym mis Chwefror 2026, gan ddod â'r canlynol ynghyd:

- Cyfranogwyr (pobl â phrofiad byw o brofedigaeth) o sgopio Cam 1
- Gweithwyr proffesiynol o'r grwpiau T&G

Bu'r grŵp hwn:



- Yn adolygu ac yn mireinio dyluniad a chynnwys yr offeryn (gan gynnwys metrigau)
- Yn profi senarios o ymateb y cyhoedd i ddata ar lefel ysbyty
- Yn trafod mecanweithiau adborth
- Yn asesu adnoddau a deunyddiau cymorth wedi'u hymgorffori
- Yn llunio argymhellion ar gyfer ailgynllunio Cam 2

6. Asesiad Risg a Lliniaru

6.1 Risgiau a Nodwyd

Amlygodd y broses ddatblygu nifer o risgiau posibl:

- Camddehongli data gan y cyhoedd
- Trallod emosiynol i bobl sy'n marw, teuluoedd/gofalwyr a phobl mewn profedigaeth
- Niwed i enw da a cholli ymddiriedaeth y cyhoedd
- Effaith negyddol ar forâl a lles staff

6.2 Strategaethau Lliniaru

Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn, cynigiwyd y mesurau canlynol:

- Canllawiau clir a deunyddiau esboniadol
- Ymgysylltu ag ysbytai a thimau cyfathrebu
- Cyfeirio at wasanaethau cymorth profedigaeth ac emosiynol
- Tryloywder ynghylch camau gwella ansawdd

7. Strategaeth Gyfathrebu

Cynllun cyfathrebu pedwar cam a ddatblygwyd

Cam 1: Cymeradwyo (Chwefror 2026)

- Cyflwynwyd y cynnig i Grŵp Llywio NACEL, a chafodd ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2026.

Step 2: Hysbysiad ymlaen llaw (Chwefror–Mawrth 2026)

- Dosbarthwyd pecynnau briffio
- Anfonwyd hysbysiad cynnar at ddarparwyr gofal iechyd, gan gynnwys:
 - Sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Lloegr, Cymru a Jersey – Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Nyrsio, Arweinydd Prosiect NACEL. Argymhellwyd dosbarthu ymhellach i: Timau Cyfathrebu, Prif Nyrs / Cyfarwyddwr Clinigol Nyrsio, Arweinwyr Clinigol Gofal Lliniarol



a Gofal Diwedd Oes, Archwilwyr Meddygol, Arweinwyr Ansawdd a Llywodraethu, a thimau Profiad Cleifion / PALS. Darparwyd cyfieithiad Cymraeg ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

- Rhanddeiliaid system – yn Lloegr: Arweinwyr Rhanbarthol GIG Lloegr, Rhwydweithiau Clinigol Rhanbarthol, Arweinwyr ICB; ac yng Nghymru: Byrddau Iechyd a Trusts. Argymhellwyd dosbarthu ymhellach i: Arweinwyr Clinigol Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes, Arweinydd Rhaglen Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, Arweinydd Cyfathrebu, Arweinwyr Profiad Cleifion a Gofalwyr, Prif Nyrs ICB, Cyfarwyddwr Meddygol, Swyddog Cyfrifol Uwch. Darparwyd cyfieithiad Cymraeg ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.
- Rhanddeiliaid cenedlaethol – arweinwyr cenedlaethol yn Lloegr, Cymru a Jersey, Tîm Cyfathrebu Cenedlaethol, HQIP, Grŵp Llywio NACEL a phartneriaid Ambitions for Palliative and End of Life Care.
- Darparwyd canllawiau ar adolygu a pharatoi data

Cam 3: Cymorth Paratoi (Mai–Gorffennaf 2026)

- Pecynnau cymorth cyfathrebu, templedi a Chwestiynau Cyffredin wedi'u hanfon at yr un rhestr o ddarparwyr gofal iechyd ag a nodwyd yng Ngham 2 uchod
- Sesiynau galw heibio ar gyfer cwestiynau rhanddeiliaid
- Gweithdy gwe (webinar) o'r enw "Gwella Profiad Cleifion a Gofalwyr"
- Mynediad rhagolwg i gyflwyniad y data
- Rhestr wirio terfynol ar gyfer parodrwydd

Cam 4: Gwerthuso ar ôl Lansio (Ar ôl Awst 2026)

- Arolygon adborth ar ôl 6 mis ac yn flynyddol wedi hynny

8. Gwelliannau Dylunio Cam 2

Mae Cam 2 yn adeiladu ar Gam 1 gyda nifer o welliannau:

- Cynnwys data ar lefel ysbyty/safle
- Cynnwys data 2025
- Cynnwys cymariaethau blwyddyn ar ôl blwyddyn
- Cynnwys cwintellau i ddangos amrywiad yn well
- Testun deinamig i gefnogi dehongli data
- Cadw'r pum metrig craidd (wedi'u haildrefnu er eglurder)
- Gwell hygyrchedd a llywio
- Canllawiau a gwybodaeth gyd-destunol estynedig
- Mecanweithiau adborth gwell
- Adnoddau cymorth gwell, gan gynnwys:



- Cymorth profedigaeth
- Gwybodaeth am y broses o farw
- Dolenni at sefydliadau cymorth cenedlaethol

Nodweddion Data

- Manylder: Cenedlaethol, rhanbarthol, a lefel ysbyty/safle
- Cwmpas: Lloegr, Cymru a Jersey
- Amllder diweddaru: Blynnyddol
- Gydag atal data (data suppression) ar waith ar gyfer meintiau sampl bach

9. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd ymgysylltu ar sawl lefel:

- **Cenedlaethol:** Arweinwyr y GIG, rheoleiddwyr, a sefydliadau partner
- **Rhanbarthol/System:** Rhwydweithiau clinigol, byrddau gofal integredig, ac arweinwyr rhaglenni
- **Lleol:** Arweinyddiaeth ysbytai, timau clinigol, a grwpiau profiad cleifion

Sicrhodd hyn aliniad, parodrwydd, a dosbarthiad effeithiol.

10. Amserlen Weithredu

Mae'r datblygiad wedi dilyn amserlen strwythuredig:

- Datblygiad a lansiad Cam 1: Chwefror–Awst 2025
- Sgopio ac ymgynghori Cam 2: Tachwedd 2025 – Chwefror 2026
- Adeiladu, profi a chyfathrebu Cam 2: Chwefror–Gorffennaf 2026
- Cyhoeddi arfaethedig yr Offeryn Cam 2: Awst 2026

11. Casgliad

Mae Offeryn Cleifion a Gofalwyr NACEL yn cynrychioli cam sylweddol tuag at dryloywder mewn gofal diwedd oes. Mae ei ddatblygiad wedi'i gefnogi gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd, ac ymagwedd strwythuredig at wella ansawdd.

Sefydlodd Cam 1 sylfaen o ddata lefel uchel hygyrch, tra bod Cam 2 yn cyflwyno mwy o fanylder ac ymarferoldeb. Mae'r dyluniad ailadroddol, cydgynhyrchiol yn sicrhau bod yr offeryn yn parhau i fod yn sensitif, yn addysgiadol, ac wedi'i alinio ag anghenion defnyddwyr.



Bydd gwerthuso parhaus ac adborth yn hanfodol i sicrhau bod yr offeryn yn parhau i gefnogi gwelliannau ystyrlon yn ansawdd gofal a chanlyniadau i gleifion.

12. Diolchiadau

Gyda diolch i'r rhai â phrofiad byw a oedd yn barod i rannu eu profiadau a helpu i ddatblygu'r Offeryn Cleifion a Gofalwyr, gan gynnwys (gyda chaniatâd):

Naheen Ali

Diana Robinson

Amy Wizard Ponter

James Bradley, a fu farw'n sydyn ym mis Gorffennaf 2025

Ruby Bhatti

Gavin

Carole Musgrove

Yasmin Kosar, er cof am ei thad Haji Mubarak Ali

S J Mountain (B.E.M.), er cof am ei mam Jean Johnson

Shirin Shahid

Diolch i'r Arweinwyr Cenedlaethol a'r timau yn GIG Lloegr, Cymru a Jersey a gydweithiodd ac a hwylusodd y gwaith sgopio.

Yn olaf, diolch i'r holl weithwyr proffesiynol a roddodd o'u hamser a'u hegni i gefnogi'r Grwpiau Ffocws Proffesiynol ac i sicrhau bod staff ysbytai a thimau gofal iechyd ehangach yn cael eu cynrychioli. Maent yn cynnwys:

Sabeen Jabbar – Arweinydd Gofal Diwedd Oes, Hwylusydd Gofal Diwedd Oes yn Central London Community Healthcare NHS Trust.

Cynthia Lever - Arweinydd Gofal Diwedd Oes, West London NHS Trust

Sandra Moore – Pennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion, NHS North East London Integrated Care Board

Georgina Parker – Hwylusydd Adborth Cleifion, Guy's and St Thomas' NHS Foundation Trust



Dr Rachel Craig – Ymgynghorydd mewn Gofal Lliniarol, Royal Free London NHS Foundation Trust, Llundain

Jan Eversfield – Arweinydd Profedigaeth a Gofal ar ôl Marwolaeth, Llundain

Beverley Pickett – Uwch Reolwr Ansawdd a Gofal Diwedd Oes, Rhanbarth Dwyrain Lloegr, GIG Lloegr

Jane Moreland – Prif Hwylusydd Gofal Diwedd Oes, Ysbyty Brenhinol Derby, University Hospitals of Derby and Burton NHS Foundation Trust

Kulvant Sandhu – Uwch Reolwr Rhaglen ar gyfer gofalwyr di-dâl, personoli, a gofal lliniarol a diwedd oes, West Yorkshire Integrated Care Board

Alison Skelton – Arweinydd Trawsnewid Gofal Lliniarol a Diwedd Oes Macmillan, Community Health and Care Collaborative, Humber and North Yorkshire Integrated Care Board

Tina Willis – Arweinydd Prosiect Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, NHS University Hospitals of Liverpool Group

Dr Andrew Khodabukus – Ymgynghorydd mewn meddygaeth lliniarol, cadeirydd grŵp llywio diwedd oes, Mersey and West Lancashire Teaching Hospitals NHS Trust, cynghorydd arbenigol rhanbarthol y Gogledd Orllewin ar gyfer meddygaeth lliniarol, Royal College of Physicians

Carmel Wiseman – Nyrs gofrestredig, rheolwr rhaglen Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, Northwest Coast Palliative and End of Life Care clinical network

Charmain Wright – Pennaeth Ymgysylltu Cleifion a'r Cyhoedd, Dartford and Gravesham NHS Trust

Kim Jacobs – Rheolwr Rhaglen Gofalwyr, rhanbarth De-ddwyrain



Lorraine Hart – Prif Nyrs Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, Great Western Hospitals NHS Foundation Trust, Wiltshire

Dr Saskie Dorman – Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Lliniarol, University Hospitals Dorset NHS Foundation Trust, Dorset

Dr Sophy Gretton – Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Lliniarol, University Hospitals Bristol and Weston NHS Foundation Trust

Dr Jenny Du Feu – Meddyg Staff, Jersey Hospice Care, Jersey

Dr Victoria Wheatley – Ymgynghorydd gofal lliniarol, Hywel Dda University Health Board, Cymru

Dr Sue Morgan – Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Lliniarol, Cyngorydd Clinigol ar gyfer Gofal Diwedd Oes, Swansea Bay University Health Board, Cymru

Gemma Sweetman – Nyrs Swan, Betsi Cadwaladr University Health Board, Cymru